**Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor, *Arallgyfeirio'r Economi Wledig***

Dyddiad: Dydd Mercher 15 Mai

**Diben**

1. Rhoi ystyriaeth i ymateb Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, *Arallgyfeirio'r Economi Wledig*.

**Cefndir**

2. Ym Mehefin 2001 cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, *Arallgyfeirio'r Economi Wledig*. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dros 50 o argymhellion gyda'r nod o hyrwyddo sylfaen economaidd gryfach a mwy amrywiol yng Nghymru wledig.

3. Yn y papur a atodir ceir ymateb Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor.

**Pwyntiau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor**

4. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar yr ymatebion ac i gytuno ar ddull o ymdrin ag adroddiadau cynnydd yn y dyfodol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Mai 2002**

---

**YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD Y PWYLLGOR AMAETH A DATBLYGU GWLEDIG**

**AR ARALLGYFEIRIO’R ECONOMI WLEDIG**

**ARWEINIAD I’R CYNNWYS**


| Rhif Tudalen | Pennawd |
|---|---|
| 1 | Polisïau cadarn a chydlynus ar gyfer datblygu economaidd yn yr ardaloedd gwledig |
| 1 | Nodi cyfrifoldebau gwledig yn glir |
| 2 | Gwella’r ddarpariaeth cyllid a chyngor i fusnesau gwledig |
| 3 | Gwella gwerthusiad a pherfformiad asiantaethau a pholisïau |
| 4 | Gwella datblygu sgiliau a chysylltiadau addysg-busnes |
| 9 | Meithrin mentrau lleol a lledaenu arferion da |
| 11 | Gwella’r ddarpariaeth gweithleoedd a datblygiadau deori busnesau |
| 12 | Marchnata cynnyrch gwledig ac ychwanegu gwerth ato |
| 13 | Datblygu economaidd cymunedol |
| 16 | Cynllunio defnydd tir yn rhagweithiol fel rhan o adfywio gwledig |
| 21 | Rôl cludiant wrth arallgyfeirio’r economi wledig |


## Polisïau cadarn a chydlynus ar gyfer datblygu economaidd yn yr ardaloedd gwledig

***Mae'r pwyllgor yn argymell fod y Cynulliad yn rhoi arweiniad strategol clir i gydlynu a rhoi canolbwynt i’r polisi datblygu gwledig ac y dylai arweiniad y Cynulliad gael ei seilio ar y weledigaeth, yr egwyddorion a’r blaenoriaethau a nodir yn yr adroddiad***.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arweiniad strategol clir i gydlynu a rhoi canolbwynt i'r polisi datblygu gwledig wedi ei seilio ar gyflawni gweledigaeth a phennu blaenoriaethau ar gyfer Cymru wledig, gan weithio gyda mudiadau partner fel Partneriaeth Gwledig Cymru.

Rydym yn derbyn yr egwyddor y dylai polisi gael ei seilio ar dystiolaeth gadarn a mesurau perfformiad sy'n pwysleisio amcanion hirdymor mesuradwy. Mae arnom angen gwybod mwy am gyflwr economaidd a chymdeithasol Cymru wledig ac am y problemau a'r datrysiadau posibl. Bydd yr wybodaeth hon yn hysbysu cynllunio polisi gan Asiantaethau a Llywodraeth y Cynulliad. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu'r astudiaeth Cydbwysedd Oedran Cymunedau i ymchwilio i'r ffactorau sy'n arwain at i bobl ifanc allfudo o, ac yn gweithredu fel rhwystrau iddynt ddychwelyd i fyw yng Nghymru wledig, yn cynnwys mynediad at wasanaethau. Hefyd mae wedi sefydlu Panel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd ac mae'n trafod datblygu a mesur polisïau ag Asiantaethau â rôl allweddol o ran datblygu economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd gwledig, er enghraifft, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa. Yn ychwanegol, mae Ffermio i'r Dyfodol, a lawnsiwyd y llynedd, yn rhoi gweledigaeth ac arweiniad strategol clir ynghylch y ffordd ymlaen i amaethyddiaeth a'r sector bwyd-amaeth yng Nghymru.

**Nodi cyfrifoldebau gwledig yn glir**

***Mae'r pwyllgor yn argymell:***

- ***y dylai Awdurdod Datblygu Cymru ddarparu arweinyddiaeth wrth ddatblygu'r economi wledig ac y dylai ddangos ffocws gwledig mwy penodol ymhob un o nodau ei raglen gorfforaethol****;*

Mae'r Gweinidogion yn ymwybodol iawn o'r rôl y gall Awdurdod Datblygu Cymru ei chwarae wrth adfywio'r economi wledig. Gwnaed yn eglur yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i'r Awdurdod eu bod yn disgwyl i Awdurdod Datblygu Cymru chwarae rhan lawn a gweithgar wrth fwrw ymlaen â pholisïau'r Cynulliad ar gyfer adfywio economaidd yng Nghymru wledig. Mae'r Awdurdod wedi cydnabod ers peth amser bwysigrwydd y gwaith hwn drwy nodi'r mater ar wahân fel blaenoriaeth yn ei Gynlluniau Corfforaethol a Gweithredol a drwy gynnal nifer o raglenni penodol, wedi eu targedu at y sector, megis Cyswllt Ffermio. Mae'r Gweinidogion yn disgwyl i'r Awdurdod gydweithio yn agos â phartneriaid fel yr Awdurdodau Lleol, ELWa a'r sector preifat bob amser. Mae'r Awdurdod hefyd yn un o'r prif sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni Cynllun Adferiad Gwledig Llywodraeth y Cynulliad.

- ***y dylai cyrff a mentrau eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus, yn cynnwys Cyswllt Busnes, Cyllid Cymru ac ELWa – y Cyngor Cenedlaethol hybu a monitro datblygu economaidd gwledig yn benodol****.*

Mae economi Cymru yn integredig a rhyng-ddibynnol iawn. Mae Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'i bartneriaid allweddol, wedi nodi'r strategaeth gytunedig ar gyfer dyfodol economi Cymru yn 'Cymru ar

ei Hennill'. Mae'r strategaeth 10 mlynedd hon yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd er budd yr economi gyfan.

**Gwella'r ddarpariaeth cyllid a chyngor i fusnesau gwledig**

***Mae'r pwyllgor yn cefnogi casgliadau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd y dylid cael un pwynt cyrchu ar gyfer cefnogi busnes, gydag Awdurdod Datblygu Cymru yn gyfrifol am adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli eisoes a chynyddu a safoni ansawdd y gwasanaethau ar draws Cymru**.*

Wrth ddatblygu argymhellion y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn dilyn ei adolygiad ar wasanaethau cefnogi busnes, bydd un pwynt cyrchu newydd, diduedd, a fydd yn darparu cyngor, hyfforddiant, cefnogaeth ariannol a gwasanaethau arbenigol yn cael ei lawnsio yn 2002-03 gan Awdurdod Datblygu Cymru. Bydd hwn yn rhoi'r cwsmer mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a'r darparydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu eu gofynion busnes. Ochr yn ochr â'r trefniadau cyrchu newydd, mae gwaith mewn llaw i sicrhau bod y cynghorwyr eu hunain wedi eu hyfforddi'n briodol i ddarparu'r cyngor gorau posibl a'u bod yn cael eu briffio'n gywir er mwyn gallu cyfeirio cwsmeriaid at y gwahanol ffynonellau cymorth a chefnogaeth a gynigir gan y darparwyr arbenigol. Yn ychwanegol, mae ymarfer mapio ar droed i sefydlu pa 'gynhyrchion' sydd ar gael ar hyn o bryd a sut y gellid gwella, rhesymoli neu rannu'r rhain ymhellach.

*Mae'n argymell:*

- ***y dylai darparwyr gwasanaethau cefnogi fod yn fwy rhagweithiol wrth dargedu busnesau mewn ardaloedd gwledig**;*

O ran cyngor a chefnogaeth busnes cyffredinol, bydd y pwyntiau cyrchu a'r gwasanaethau cefnogi y cyfeirir atynt uchod wedi'u seilio ar ardaloedd lleol a byddant yn adlewyrchu'r economi leol. Dylai'r ymarfer mapio nodi unrhyw fylchau lle bo'r gwasanaethau yn methu â bodloni anghenion busnesau yn yr ardal. O ran amaethyddiaeth, mae'n elfen ganolog o ethos Cyswllt Ffermio, sy'n dod â chyflenwyr llawer o'r gwasanaethau cefnogi i deuluoedd ffermio at ei gilydd, y dylai'r gwasanaethau gael eu marchnata'n rhagweithiol. Mae hyn yn cael ei roi ar waith drwy fecanweithiau fel y rhwydwaith hwyluswyr lleol a chylchgrawn newydd y Cynulliad, Gwlad.

- ***y dylid ystyried anghenion penodol busnesau gwledig wrth gynllunio pecynnau cefnogi busnes a phecynnau hyfforddi fel bod y gwasanaethau yr un mor hawdd i'w cyrraedd lle bynnag y bo busnes wedi'i leoli**;*

Mae'r trefniadau ar gyfer y gwasanaethau cefnogi busnes newydd wedi'u dylunio i ymateb i anghenion busnes waeth pa sector fo dan sylw. Byddwn yn edrych i du busnesau am gymorth i nodi lle bo cymorth yn ofynnol ac i du ein partneriaid i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae anghenion penodol teuluoedd

ffermio yn cael eu hystyried wrth ddylunio’r pecynnau cefnogi busnes a’r pecynnau hyfforddiant sy’n cael eu cyflenwi’r rhannol drwy ELWa.

- ***y dylai Cyllid Cymru ymdrin ag anghenion busnesau gwledig sy’n datblygu trwy gyflenwi benthyciadau bychan i gynorthwyo gyda llif arian yn gyflym ac yn hawdd;***

- ***y dylai Cyllid Cymru yn rhoi sylw penodol i anghenion newydd ddyfodiaid i ffermio a’r sector sy’n gysylltiedig â’r tir yn gyffredinol wrth gynllunio a chyflenwi cefnogaeth ariannol yn yr ardaloedd gwledig****;*

Mae gan Cyllid Cymru bortffolio eang o raglenni, y mae’n ofynnol iddo eu gweithredu ar sail fasnachol ac o fewn terfynau deddf cystadleuaeth a rheoliadau yr Undeb Ewropeaidd lle mae’n rhaid cadw at gyfyngiadau sector. Dylai unrhyw fusnes sy’n sefydlu, yn awyddus i ehangu neu mewn trafferthion ariannol geisio cyngor mor fuan ag y bo modd fel y gellir darparu’r arweiniad a’r gefnogaeth fwyaf priodol iddynt.

- ***Cyswllt Busnes, neu ba bynnag enw a ddefnyddir yn y dyfodol, i’w farchnata’n egnïol i’r gymuned amaethyddol****;*

Yn dilyn ymgynghori â’r cyhoedd ynghylch y gwasanaethau cefnogi busnes, roedd nifer o blaid cadw’r enw ‘Cyswllt Busnes’. Fodd bynnag, cydnabuwyd gwendidau’r enw a phenderfynwyd cadw’r enw brand i ddynodi’r gwasanaeth pwynt cyrchu yn unig. Bydd hyn yn cael ei adolygu.

- ***y dylid edrych ar y potensial i ddatblygu pecynnau tebyg i Cyswllt Ffermio ar gyfer sectorau eraill sy’n bwysig i’r economi wledig****;*

Bydd y pwynt cyrchu Cyswllt Busnes newydd yn gallu cyfeirio cwsmeriaid at y gwasanaethau mwyaf priodol i ddiwallu eu anghenion, dim ots pa sector busnes maent yn ei gynrychioli.

- ***y dylai’r Cynulliad gynhyrchu cyfeirlyfr cymorth ariannol sy’n hawdd i’w ddefnyddio***.

Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio ar gyfeirlyfr newydd a fydd yn nodi’r holl wasanaethau cefnogi busnes sy’n derbyn arian cyhoeddus, yn cynnwys y rhai sy’n cynnig cymorth ariannol. Serch hynny, mae’n bosibl nad grant yw’r ateb mwyaf priodol ac yn y dyfodol bydd unrhyw fusnes sy’n ceisio cymorth ariannol yn cael ei annog i geisio cyngor busnes i sicrhau eu bod yn cael arweiniad a mynediad i’r ffynhonnell cymorth mwyaf priodol.

***Mae’r pwyllgor hefyd yn cymeradwyo’r gefnogaeth a roddwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd i gyflwyno Grant Menter Haen 3.***

Dechreuodd Cynllun Grant Buddsoddi y Cynulliad ar 2 Ebrill 2002.

**Gwella gwerthusiad a pherfformiad asiantaethau a pholisïau**

*Mae'r pwyllgor yn argymell:*

- ***bod diffiniad cyson a chytunedig o Gymru wledig yn cael ei ddatblygu, y gellir monitro polisïau ac allbynnau gwledig yn ei erbyn;***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar ddatblygu gwell diffiniadau o Gymru wledig, gan roi ystyriaeth i'r gwaith a gyflawnwyd yn yr Alban a Lloegr. Gall y diffiniadau amrywio yn dibynnu ar y lefel ffocws polisi. Yn ychwanegol at geisio diffinio cymeriad ardal wledig, er enghraifft, y naw awdurdod lleol gwledig yn bennaf, mae angen ystyried y lefelau casglu data y gellid ei gyfanredu ar gyfer y mater penodol dan sylw. Mae gwaith yn yr arfaeth i fireinio'r Mynegai Amddifadedd Gwledig hefyd.

- ***bod adran polisi gwledig y Cynulliad yn arolygu perfformiad asiantaethau a rhaglenni sy'n arwyddocaol i'r economi wledig ac yn monitro perfformiad yr economi wledig yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt yn y fframwaith a argymhellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn;***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn trafod datblygu mesurau perfformiad yn eu hardaloedd gyda'r Asiantaethau allweddol.

- ***bod y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yn mabwysiadu dull trwyadl o werthuso polisi gwledig.***

Cytunir y dylai'r polisi gael ei werthuso yn drwyadl ac yn rheolaidd ac mae hyn yn rhywbeth y bydd y Panel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd yn ei ystyried. Mae Uned Ymchwil Economaidd a Gwerthuso yn cael ei sefydlu yn rhan o Grwp Ymchwil a Datblygu'r Cynulliad.

**Gwella datblygu sgiliau a chysylltiadau addysg-busnes**

***Mae'r pwyllgor yn argymell hyn fel un o dasgau cyntaf ELWa: asesu'r galw am ddysgu ôl-16 yng Nghymru wledig a ffurfio cynigion ar y ffordd orau o gwrdd â'r galw.***

Sefydlwyd grwp llywio wedi ei lunio o randdeiliaid allanol gan y Cyngor Cenedlaethol – ELWA i roi arweiniad i'r adolygiad darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl 16 a gynigir i'r sector amaeth a'r sector ehangach seiliedig ar y tir. Prif ganolbwynt yr adolygiad hwn yn llunio cynigion ar gyfer y ffordd orau o

addasu'r ddarpariaeth i adlewyrchu'r galw a'r anghenion.

Bydd gwaith ymchwil y Cyngor Cenedlaethol – ELWa i anghenion sgiliau a hyfforddiant ei gwsmeriaid a chynhyrchu datganiadau anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol gan Bwyllgorau Rhanbarthol y Cyngor yn galluogi asesu'r anghenion dysgu ôl 16 ehangach yng Nghymru wledig.

***Mae'r pwyllgor hefyd yn teimlo ei bod yn hanfodol sicrhau bod gan y boblogaeth wledig y sgiliau i ymelwa'n llawn ar botensial TGCh fel arf dysgu ac arf busnes.***

Un o nodau penodol y fframwaith strategol Cymru Arlein yw sefydlu Cymru fel lleoliad lle mae cymunedau lleol yn defnyddio TGCh yn weithredol i gael gwared ar rwystrau ffisegol, daearyddol a ieithyddol a goresgyn allgau cymdeithasol. Un o ymrwymiadau allweddol y strategaeth yw sicrhau y gall pawb yng Nghymru gaffael y sgiliau a'r ddealltwriaeth i gymryd rhan ac elwa o'r Oes Wybodaeth. Yr amcanion yw:

- Gwella cyfleusterau TGCh yn yr holl sefydliadau addysg a hyfforddiant a galluogi defnydd effeithiol o'r cyfleusterau hyn
- Annog datblygu sgiliau TGCh sylfaenol drwy'r cymunedau lleol.
- Annog datblygu fframwaith gydlynus ar gyfer cymwysterau TGCh yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn amlinellu amrediad eang o gamau gweithredu i ddiwallu'r amcanion hyn mewn ysgolion, addysg bellach ac uwch a sectorau dysgu gydol oes eraill a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i ehangu'r mynediad i hyfforddiant TGCh, a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gan ddefnyddio offer TG i gynnig dulliau dysgu o bell i'r rhai yn yr ardaloedd gwledig.

Fel rhan o Cymru Arlein mae'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa wedi sefydlu grwp arbenigwyr e-ddysgu a TGCh i gefnogi gweithgarwch yn y maes hwn. Hefyd, ym mis Ebrill dechreuir cyflenwi rhaglen hyfforddiant TGCh newydd ar gyfer teuluoedd ffermio. Nod y rhaglen yw trosglwyddo sgiliau i deuluoedd ffermio a fydd yn eu galluogi i ymelwa'n llawn ar botensial TGCh yn eu busnesau, a rhagwelir y bydd yn ysgogi defnydd ehangach o TGCh yng Nghymru wledig.

O ran y persbectif ffermio, bydd ELWa yn lawnsio pecyn cydlynus o gefnogaeth TG a rheoli busnes fis nesaf fel rhan o'r cynllun Cyswllt Ffermio.

O ran twristiaeth, yn 2000 dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad £4 miliwn dros 3 blynedd i Fwrdd Croeso Cymru tuag at ddatblygu System Rheoli Cyrchfan (Destination Management System - DMS) ar gyfer Cymru. Y nod yw rhoi proffil llawer uwch i Gymru ar y we a gadael i ymwelwyr gasglu gwybodaeth a bwcio arlein. Mae'r prosiect 'Ymwelwch â Chymru' yn datblygu'n dda, gyda thîm o ddeg o bobl yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn weithredol o fis Mai 2002. Mae'r offer busnes yn cael eu defnyddio yn awr ac mae Bwrdd Croeso Cymru yn cyflawni hyfforddiant gyda'r diwydiant – mae tua 350 o fusnesau wedi cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn derbyn adborth

cadarnhaol gan y rhai sydd wedi mynychu'r sesiynau hyfforddiant ac wedi cael peth llwyddiant wrth annog pobl i ddilyn cyrsiau TGCh sylfaenol. Mae rhai busnesau wrthi'n rhoi o'u hamser eu hunain i ddatblygu'r sgiliau hyn.

***Er mwyn cynyddu'r galw unigol am ddysgu a meithrin sgiliau mewn ardaloedd gwledig, mae'r pwyllgor yn argymell:***

- ***Y dylid ystyried dichonoldeb lwfans cynnal dysgu er mwyn cynorthwyo gyda chost uchel cyrraedd hyfforddiant i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu arunig;***

Ar 12 Chwefror cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg gynllun newydd o Grantiau Dysgu gan y Cynulliad, sy'n amodol ar brawf modd, i'w cyflwyno o flwyddyn academaidd 2002-03 ar gyfer myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch sydd dros 18 oed ac yn byw yng Nghymru yn arferol.

Mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn sylweddoli bod cost cyrchu hyfforddiant yn uwch i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu arunig a bod y 'premiwm gwledig' yn cael ei ystyried yn ei adolygiad cyfredol o ariannu pob math o ddarpariaeth. Nodwyd blaenoriaeth benodol yn Nghanolbarth Cymru i ddatblygu dulliau arloesol a chynaliadwy i gyflenwi dysgu i grwpiau bychan a gwasgaredig er mwyn gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac arunig.

- ***Y dylai'r Cynulliad ac ELWa anelu at wneud hyfforddiant busnes ac amaethyddol ffurfiol y norm i'r holl ffermwyr ifanc, trwy ddefnyddio bwrsariau dethol o bosibl;***

Cynigir amrediad eang o gyrsiau yn y sector gweithgareddau seiliedig ar y tir ar bob lefel, o lefel mynediad i ôl-raddedig. Mae'r rhain yn cael eu cynnig drwy gyrsiau amser llawn a rhan amser, cyrsiau Hyfforddedigion Cenedlaethol, Prentisiaethau Modern a dysgu o bell. Mae lwfansau hyfforddiant ar gael mewn rhai amgylchiadau. Gwnawn weithio gydag ELWa, Gyrfa Cymru a'r Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol/Cyngor Sgiliau Sector i hybu'r holl bobl ifanc sy'n dilyn gyrfa mewn ffermio i ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig.

Bydd adolygiad y Cyngor Cenedlaethol – ELWa o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i'r sector amaethyddiaeth/gweithgareddau wedi'u seilio ar y tir yn adolygu'r anghenion a'r mecanweithiau cyflenwi cyrsiau ar gyfer yr argymhelliad hwn.

- ***Y dylai ELWa hybu cynnydd yn y defnydd o leoliadau diwydiannol a masnachol fel rhan o gyrsiau addysg bellach ac uwch;***

Mae llawer o gyrsiau addysg bellach ac addysg uwch yn gwneud defnydd o leoliadau cyflogaeth ac mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa ar fin ail-ddatblygu ei raglen Cysylltiadau Addysg Busnes a ddylai ganiatáu ar gyfer hyn. Yn ychwanegol, mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yn gofyn i ELWa-Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru annog sefydliadau addysg uwch i gymryd camau, fel rhan o'r strategaethau addysgu a dysgu, i sicrhau bod eu holl fyfyrwyr yn caffael sgiliau'n gysylltiedig â

chyflogaeth, gan fanteisio ar yr amrediad llawn o brofiadau dysgu yn cynnwys profiad gwaith a gweithgareddau gwirfoddol.

- ***Y dylai ELWa hybu defnydd ehangach o gyrsiau gradd sylfaenol a Diploma Genedlaethol Uwch (HND) sy'n gysylltiedig â darparu cyflogaeth mewn diwydiannau twf yng Nghymru wledig*.**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau bod cyllid ar gael yn 2001-02 i gefnogi datblygu Graddau Sylfaen. Rydym wedi gofyn i ELWa-Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru annog a chefnogi cyflwyno'r radd sylfaen ddwy flynedd yn ehangach yng Nghymru.

***O safbwynt darparwyr addysg a hyfforddiant, mae'r pwyllgor yn argymell;***

- ***y dylai ELWa a'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant annog darparwyr i gydnabod anghenion penodol y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd gwledig mwy pellennig a theilwra'r ddarpariaeth yn unol â hynny trwy ddefnyddio TGCh mewn modd llawn dychymyg a chydweithredu a sefydliadau partner, er enghraifft*;**

Y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant yw'r partneriaid lleol wrth gynllunio darpariaeth addysg a hyfforddiant ar y lefel leol ac mae angen i ELWa sicrhau, lle bo'n briodol, fod y Consortia yn ymdrin â'r meysydd hyn. Yn wir, cafodd y mater o sut y gellir darparu dysgu yn briodol ac mewn modd dichonadwy yn ardal wledig Canolbarth Cymru ei ystyried yng nghyfarfod diweddar Consortiwm Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant/Pwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

- ***y dylai ELWa a'r Consortia ystyried sut i gydbwyso'r angen am ddysgu a ddarperir yn lleol mewn ardaloedd gwledig gyda buddiannau arbenigedd darparwyr. Yn benodol, dylid adolygu'r ddarpariaeth a dull cyflenwi hyfforddiant amaethyddol*;**

Mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa wrthi'n adolygu'r ddarpariaeth a dull cyflenwi hyfforddiant amaethyddol ar hyn o bryd.

- ***y dylai ELWa a'r Consortia annog dull mwy cydlynus a chydunol o ddatblygu hyfforddiant sgiliau wedi ei deilwra i anghenion penodol busnesau gwledig*;**

Dros y flwyddyn i ddod bydd y Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn adolygu'r modd y mae'n gwasanaethu busnesau. Yn rhanbarth Canolbarth Cymru mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn dechrau gwaith gyda rhai sectorau blaenoriaeth yn yr economi wledig gyda'r nod o hybu hyfforddiant sgiliau e.e. gyda'r sectorau coedwigaeth/pren ac ynni amgen.

Bydd adolygiad y Cyngor Cenedlaethol – ELWa o'r hyfforddiant amaethyddol, lawnsio rhaglen hyfforddiant TGCh i deuluoedd ffermio a datblygu rhaglen datblygu rheolaeth i deuluoedd ffermio, sy'n cael eu hintegreiddio yn rhan o'r pecyn Cyswllt Ffermio, yn cynyddu hybu hyfforddiant sgiliau yn y

diwydiant traddodiadol hwn.

Mae’r Cyngor Cenedlaethol - ELWa ac Awdurdod Datblygu Cymru yn dechrau ar waith i edrych ar anghenion sgiliau’r sector bwyd-amaeth a rôl canolfannau bwyd Cymru wrth gefnogi’r anghenion hyn.

Gwnaeth Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru sicrhau cyllid ychwanegol o £50k gan ELWa yn 2001 a chyflwynwyd cais am £200,000 yn rhagor dros y 2 flynedd nesaf. Mae Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru Cyf yn aros am ymateb gan ELWa ynghylch cymeradwyo’r swm hynny’n swyddogol.

Bydd Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru (o fis Ebrill eleni) yn gweithredu fel sefydliad annibynnol amser llawn. Nod y Fforwm yw dod yn brif ffynhonnell arweinyddiaeth, cyngor a chydlynu addysg a hyfforddiant twristiaeth yng Nghymru.

- ***y dylai ELWa yn nodi pa sgiliau gwledig y mae prinder ohonynt a’r bylchau yn y ddarpariaeth, gyda’r Consortia yn gweithredu wedyn i ymdrin â hynny***.

Er mwyn cynorthwyo i asesu’r sgiliau y mae prinder ohonynt a nodi ffyrdd o ymdrin â hyn mae Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd ag amrediad eang o bartneriaid yn cynnwys Cymdeithas y Cyfarwyddwyr (CBI), Cyngres yr Undebau Llafur (TUC), ELWa, Awdurdod Datblygu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi arwain y prosiect Sgiliau Dyfodol Cymru. Cyhoeddwyd y prif adroddiad a’r adroddiadau rhanbarthol, yn cynnwys adroddiadau ar gyfer De Ddwyrain, De Orllewin, Gogledd a Chanolbarth Cymru ym mis Mawrth 1999. Mae’r data yn dangos y canlyniadau ar lefel awdurdod lleol. Gwnaed rhagor o waith ers hynny i nodi anghenion sgiliau galwedigaethol sectorau penodol a chyhoeddwyd yr adroddiadau hyn ym mis Tachwedd 2000. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad ar faterion sgiliau yn effeithio ar y sector Amaethyddiaeth a Menter Fferm yng Nghymru. Yn ychwanegol mae’r Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer diwydiannau seiliedig ar y tir - LANTRA – wedi llunio dadansoddiad o’r anghenion sgiliau yn y sector tir a chynllun datblygu’r gweithlu yng Nghymru, gyda’r nod o ymdrin ag anghenion datblygu sgiliau y diwydiannau seiliedig ar y tir. Trwy’r gwaith hwn rydym yn dechrau cael gwell dealltwriaeth o’r anghenion sgiliau yng Nghymru ac mae’n bwysig i bawb sy’n ymwneud â’r economi wledig ddefnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio eu polisïau a’u gweithredoedd.

Un o dasgau’r Cynghorau Sgiliau Sector newydd, a fydd yn dod yn lle’r Sefydliadau Hyfforddiant Cenedlaethol o fis Ebrill nesaf, fydd ymdrin â phrif bryderon eu sectorau drwy gwtogi’r bylchau a’r prinder sgiliau, gwella cynhyrchedd, gwasanaethau a pherfformiad busnes, cynyddu cyflogaeth yn eu sector a gwella’r fframweithiau dysgu a’r safonau gwaith. Mae LANTRA wedi’i ddethol fel un o’r Cynghorau Sgiliau Sector arloesol a fydd yn ei alluogi i ddatblygu ei waith sgiliau a hyfforddiant ymhellach yn y sector seiliedig ar y tir.

Mae’r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i gynyddu ar lwyddiant Sgiliau Dyfodol Cymru drwy wella’r sail dystiolaeth ymhellach a datblygu rhagor o

integreiddio gyda gwaith y Cynghorau Sgiliau Sector newydd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi mai un o dasgau ELWa yw rhannu gwybodaeth am sgiliau yn rheolaidd i'r darparwyr hyfforddiant ac i'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant yn flynyddol o leiaf.

***Er mwyn cynyddu gwerthfawrogiad cyflogwyr o werth hyfforddiant ac annog busnesau i osod dysgu yn ganolbwynt i'w cynlluniau busnes, mae'r pwyllgor yn argymell:***

- ***y dylai ELWa a'r Consortia ystyried pa ffordd yw'r ffordd orau i ddarparu cymhellion i ddarparwyr dysgu gydweithio gyda diwydiant lleol;***

- ***Y dylai ELWa weithredu i ysgogi cyflogwyr bach a chanolig mewn ardaloedd gwledig i gynyddu swm ac ansawdd eu hyfforddiant****;*

Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yn cydnabod yr angen i wella cymhelliant cyflogwyr i gefnogi hyfforddiant a dysgu yn eu sefydliadau a bod dulliau ymyrryd yn ofynnol i gynorthwyo i gynhyrchu mentrau sy'n creu llewyrch. Mae'r cynllun yn galw ar i'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa weithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector newydd i sefydlu rhwydweithiau cyflogwyr ledled Cymru i rannu'r arferion gorau a hwyluso dulliau o gyflwyno dysgu ar y cyd; a darparu pecynnau cefnogaeth hyblyg i gynorthwyo cyflogwyr i fuddsoddi yn sgiliau eu cyflogeion.

- ***Y dylid annog ELWa a'r darparwyr dysgu y maent yn eu cyllido i ddatblygu dull 'rhwydwaith dyfeisgarwch', er enghraifft, trwy grwpiau prifysgol/busnes yn cydweithio i ganolbwyntio ar drosglwyddo technoleg****.*

Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yn galw ar ELWa-Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gadeirio Gweithgor i baratoi strategaeth gyffredinol ar gyfer creu cysylltiad rhwng cyflogaeth ag addysg uwch yng Nghymru, gan edrych yn benodol ar sut y gallai cyflogwyr yng Nghymru wneud gwell defnydd o sgiliau lefel uchel. Mae cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a busnes yn cael ei annog yn fawr drwy gyfrwng y Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth gwerth £34m sy'n parhau tan 2003-04. Ystyrir ymestyn y cynllun hwn yn sgîl y perfformiad.

-

**Meithrin mentrau lleol a lledaenu arferion da**

***Er mwyn lledaenu arferion da o'r fath yn ehangach, ac i annog cydweithio gwirioneddol, mae'r pwyllgor yn argymell:***

- ***y bydd datblygu polisi o fewn y fframwaith strategol cydlynus a nodir yn yr adroddiad hwn yn cynorthwyo i wneud y rolau yn fwy eglur, gan osgoi dyblygu a chystadlu gwastraffus****;*

Wrth ddatblygu polisi gwledig, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio o fewn fframwaith

strategol cydlynus a bennir mewn trafodaeth gyda sefydliadau partner eraill, yn cynnwys Partneriaeth Gwledig Cymru, ac ar draws y Cynulliad cyfan i gydlynu gweithgarwch ac osgoi dyblygu gwastraffus. Yn fuan bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi Teclyn Polisi Integredig ar brawf gyda'r nod o wella cydlyniaeth polisi'r Cynulliad.

- ***y bydd cynnwys gwerthuso ac ymchwil yn fwy cyson i ddatblygu'r polisi yn annog diwylliant lle bydd arfarnu a meincnodi yn erbyn arferion mewn mannau eraill yng Nghymru, y DU a dramor yn cael ei dderbyn fel y norm****;*

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi Rhaglen Ymchwil, Dadansoddi, Monitro a Gwerthuso Economaidd ar hyn o bryd; sefydlu Planel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd, sefydlu Uned Ymchwil a Gwerthuso Economaidd yn y Cynulliad Cenedlaethol; ac ymchwilio i ffyrdd o gryfhau'r gallu ymchwil allanol. Daeth astudiaeth sgôp Llywodraeth y Cynulliad i'r ymchwil economaidd cyfredol a'r anghenion yn y dyfodol i'r casgliad:

- Tra bo ein dealltwriaeth o'r materion economaidd sy'n effeithio ar Gymru, effaith polisïau a rhaglenni, ac ansawdd ein data yn gwella'n gyson, mae'n rhaid gwella rhagor ar hyn;
- Rhaid i ni wneud rhagor o ymdrech i gomisiynu gwaith ymchwil ymarferol i hysbysu polisi a sicrhau gwell gwerth am arian. Nid oes gennym drefniadau cadarn ar gyfer cydlynu gwaith ymchwil economaidd, felly mae risg o orgyffwrdd;
- Mae'r gallu i gyflawni dadansoddi economaidd yng Nghymru yn gyfyngedig ac yn brin;
- Mae gwerthuso'n tueddu canolbwyntio ar fesur gweithgarwch yn hytrach nag asesu'r effaith;
- Mae'r gwaith ymchwil trawsbynciol yn gyfyngedig.

Gyda'i gilydd, cred Llywodraeth y Cynulliad y bydd y mesurau hyn yn ychwanegu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o faterion economaidd, dulliau ymyrryd ac effaith polisïau. Bydd y Panel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd yn cryfhau'r cydweithio rhwng y Cynulliad, partneriaid cymdeithasol, addysg uwch a'r prif asiantaethau economaidd a dod â rhagor o gydlyniad i'n gweithgareddau ymchwil.

Yn ychwanegol, mae Adran y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant yn bwriadu sefydlu grwp cydgysylltu newydd gyda'r sector addysg uwch er mwyn tynnu'n fwy effeithiol ar waith ymchwil i hysbysu'r polisi ynghylch, a chyflenwi addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

- ***y dylai'r Cynulliad edrych ar y sgôp i gydnabod a gwobrwyo cydweithio a chynnwys hynny yn y gwerthusiad perfformiad****;*

Mae gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau addysg uwch a rhwng sefydliadau addysg uwch a darparwyr dysgu eraill, busnesau a mudiadau cymunedol wrth wraidd strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Addysg Uwch a gyhoeddwyd ar 7 Mawrth.

Mae'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant wedi'u seilio ar yr egwyddor o gydweithio. Dylai gwerthusiad y math yma o gydweithio fwydo i mewn i'r gweithredu yma.

Drwy Gyswllt Ffermio a'i ddefnydd o ganolfannau datblygu a ffermydd arddangos, a thrwy adolygiad y Cyngor Cenedlaethol – ELWa o'r ddarpariaeth hyfforddiant i'r sector amaethyddol, mae'r dulliau o gynyddu trosglwyddo technoleg a rhwydweithio yn y sector yn cael eu hystyried o ddifrif.

Mae'r Cynllun Adferiad Gwledig hefyd wedi annog cydweithio rhwng Asiantaethau a chyrff eraill.

- ***y dylai Awdurdod Datblygu Cymru, yn gweithio gydag ELWa, arwain wrth asesu a rhannu'r cyngor arferion gorau;***

Cyfrifoldeb y Cyngor Cenedlaethol - ELWa yw rhannu cyngor am yr arferion gorau o ran materion Datblygu Adnoddau Dynol. Hefyd mae Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn cydweithio'n agos i nodi'r dull mwyaf effeithiol o gyflenwi'r cynghorion hyn i sicrhau bod busnesau yn cael y budd uchafswm o'r sector cyhoeddus.

- ***defnydd ehangach o gynlluniau gweithredu ar gyfer sectorau penodol, yn dilyn model y bartneriaeth bwyd-amaeth, ar gyfer sectorau gwledig allweddol eraill;***

Fel rhan o'r parametrau polisi cyffredinol a bennir gan Lywodraeth y Cynulliad, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn datblygu ac yn arwain ar bolisïau a chynlluniau i wella a datblygu'r sector bwyd-amaeth, un o'r busnesau allweddol yn yr economi wledig. Mae Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru wedi cyd-gomisiynu gwaith ymchwil i'r sectorau twf yn dilyn y model bwyd-amaeth. Mae'n debygol y bydd y gwaith ymchwil hwn wedi'i gwblhau erbyn haf 2002 a bydd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i lunio polisi ynghylch cefnogaeth i'r sectorau twf gan arwain at gyhoeddi Cynlluniau Gweithredu ym mis Ionawr 2003.

Yn ychwanegol, bydd yr astudiaeth Cydbwysedd Oedran Cymunedol yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu penodol i ymdrin ag anghenion pobl ifanc yn yr ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi gwaith ymchwil gan Fforwm Gwledig Cymru i'r potensial ar gyfer strategaethau twf i ysgogi datblygiad yr economi wledig.

- ***ymdrechion cydunol gan fforymau economaidd rhanbarthol a swyddfeydd rhanbarthol Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa i hyrwyddo cysylltiadau a chydlynu rhwng darparwyr cefnogaeth a chyngor o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.***

Bydd y trefniadau pwynt cyrchu newydd yn cael eu cefnogi gan rwydweithiau rhanbarthol Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa a fydd yn gweithio i sicrhau bod y sector preifat yn chwarae rôl lawn wrth benderfynu ar natur y galw lleol am, a'r dulliau gorau o gyflenwi'r gwasanaethau cefnogi lleol.

-

**Gwella'r ddarpariaeth gweithleoedd a datblygiadau busnes**

***Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai datblygu polisi gwledig trwy ddull wedi ei ffocysu'n gliriach edrych ar y potensial ar gyfer sefydlu clystyrau hybu busnes gwledig – gan ddysgu o brofiadau awdurdodau lleol ag eraill â phrofiad perthnasol***.

Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn cynnal llawer o raglenni a chynlluniau grant, fel darparu lleoliadau neu gefnogaeth i weithgareddau yn gysylltiedig â busnes, nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol a datblygu economaidd gwledig, ond ar gael yn yr ardaloedd gwledig serch hynny. Mae rhaglen yr Awdurdod o gefnogi 'Techniums' ar draws Cymru yn debygol o arwain at ddatblygu canolfannau rhagoriaeth a chyfleoedd busnes newydd yn yr ardaloedd gwledig.

**<u>Marchnata cynnyrch gwledig ac ychwanegu gwerth ato</u>**

***Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai:***

- ***delwedd o Gymru fel***

- ***amgylchedd glân a gwyrdd i fyw, dysgu a gweithio ynddo;***
- ***economi'n seiliedig ar wybodaeth, sy'n fodern ac yn tyfu; a***
- ***democratiaeth agored, ddatganoledig sydd wedi ymrwymo i egwyddorion datblygu cynaliadwy***

  ***ategu gwaith y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill wrth farchnata Cymru wledig a'i chynnyrch;***

- ***y dylai'r ddelwedd hon, ar lefel y sectorau a'r cynnyrch, gael ei datblygu ymhellach trwy waith cyrff cyhoeddus cenedlaethol a lleol mewn ymagwedd gydlynol at farchnata sectorau, cynnyrch ac ardaloedd penodol***;

Mae **Cymru ar ei Hennill** yn gweld amgylchedd Cymru fel un o'i brif asedau. Mae'n cynnig lleoliadau ar gyfer datblygu nifer o dechnolegau ynni glân, cynhyrchu bwyd organig a drwy ddulliau eraill sy'n garedig i'r amgylchedd, busnesau seiliedig ar wybodaeth, a llawer o bosibiliadau eraill. Gall Cymru fod yn fodel o ddatblygu econmaidd cynaliadwy. Gall yr economi werdd fod yn gatalydd i economi gynaliadwy, yn ogystal â chynyrchu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol ynddo'i hun.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod amgylchedd glân a gwyrdd Cymru wledig yn bwynt gwerthu cryf, ac mae wedi annog mudiadau fel Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru i ddefnyddio'r ddelwedd hon wrth farchnata cynnyrch o Gymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli nad yw hwn yn bwynt gwerthu unigryw, felly mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi cyflawni rhagor o waith ar yr ochr brandio i sicrhau ennill mantais hirdymor, gynaliadwy i fwyd Cymreig, gan ddefnyddio'r brand Gwir Flas.

- ***y dylai cyd-ddatblygu cadwyni cyflenwi - er mwyn cysylltu cynhyrchwyr yn fwy effeithiol â marchnadoedd i ddatblygu cynnyrch brand premiwm gyda delwedd amgylcheddol bositif, ac i sicrhau cyfran uwch o werth ychwanegol i gynhyrchwyr sylfaenol – a ddatblygwyd gan y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a Coed Cymru gael eu hymestyn i sectorau eraill;***

Bydd hyn yn cael ei weithredu fel rhan o ddatblygu Cynlluniau Gweithredu sectoraidd newydd. Mae'r cynlluniau hyn wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer sectorau garddwriaeth, pysgod a bywyd y dwr, rheoli coedwigaeth a biomas gyda sectorau eraill i ddilyn fel y'i nodir.

- ***pan fo'n bosibl, dylai cyrff cyhoeddus annog polisïau caffael lleol, yn seiliedig ar ansawdd, sy'n rhoi ystyriaeth briodol i amcanion cynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad yn ogystal ag ystyriaethau ariannol.***

Mae argymhellion y Pwyllgor yn unol â safiad Llywodraeth y Cynulliad sydd, oherwydd y dyletswydd i ddatblygu'n gynaliadwy, yn awyddus i ddefnyddio arian y sector cyhoeddus i fod yn sail i'w nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arwain o ran hyn. Mae Cod Gwirfoddol newydd i gyflenwyr, a gyhoeddwyd ar wefan Uned Caffael Cynulliad Cenedlaethol Cymru (www.winningourbusiness.gov.uk), yn ei gwneud yn glir fod y Cynulliad am i'w gyflenwyr gadw at ofynion sylfaenol o ran cynaliadwyedd, cydraddoldeb a materion cymdeithasol. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys manylion am sut i gyflawni busnes gyda'r Cynulliad, a gwybodaeth am y contractau ar osod. Mae cronfa ddata newydd yn rhestru'r cyflenwyr yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn gofyn i'r cyflenwyr roi manylion am eu polisïau cynaliadwyedd, cydraddoldeb a chymdeithasol, a phan fydd hyn wedi ei sefydlu gofynnir i gyflenwyr y Cynulliad lofnodi eu bod yn ymrwymo i'r Cod Gwirfoddol.

Dan y Fenter Caffael (www.wales.gov.uk/bettervalue), bwriedir cynhyrchu gwefan genedlaethol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd gwefan Uned Caffael y Cynulliad yn cael ei defnyddio fel model. Bydd y wefan genedlaethol yn cael ei datblygu drwy weithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru. Gobeithio lawnsio'r wefan genedlaethol yn ystod tymor yr Hydref 2002.

Mae caffael yn fecanwaith bwysig wrth gyflawni datblygu cynaliadwy ar bob lefel, ac mae'r Compact drafft gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn adlewyrchu hyn.

***Mae'r pwyllgor yn dymuno gweld busnesau a chlystyrau 'yn seiliedig ar wybodaeth' yn cael eu datblygu.***

***Mae'n teimlo ei bod hanfodol bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei gyd-drefnu a'i integreiddio er mwyn cael effaith gronnus ar farchnata Cymru wledig a'i chynnyrch.***

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddull integredig a chydlynus o ddatblygu Cymru wledig

ac mae'n gweithio â sefydliadau ac Asiantaethau partner megis Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa i ymchwilio i amrediad o opsiynau. Mae cynyddu ymchwil a datblygu gan fusnesau yn elfen allweddol yn yr ymgyrch i ddatblygu economi wedi ei seilio ar wybodaeth ac ar flaen strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad. Wrth fynd ar ôl y nod yma, mae pa mor synhwyrol yw defnyddio dull wedi ei ffocysu ar sectorau yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i nodi y sectorau sy'n debygol o elwa fwyaf o ddull o'r fath, a fydd yn cynnwys hybu cydweithio agosach rhwng diwydiant a'r byd academaidd fel cydran hanfodol.

## Datblygu economaidd cymunedol

***Mae'r pwyllgor am bwysleisio bod gwasanaethau, yn ogystal â bod yn weithgareddau economaidd pwysig ohonynt eu hunain hefyd yn darparu'r isadeiledd sylfaenol ar gyfer gweithgarwch economaidd ehangach.***

***Mae'r pwyllgor yn teimlo y byddai'r camau sy'n cael eu cymryd i helpu'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru – yn benodol, ymrwymiad i'r tymor hir ac i bartneriaeth – hefyd o gymorth i annog datblygu economaidd a arweinir gan y gymuned mewn cymunedau gwledig***.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r ddadl o blaid datblygu economaidd wedi'i seilio yn y cymunedau ac yn cydnabod rôl a gwerth partneriaeth wrth adeiladu adfywiad cymunedol cynaliadwy. Dangoswyd hyn drwy ein cefnogaeth i grwpiau a phrosiectau cymunedol a thrwy'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r rhaglen LEADER+. Mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf hefyd yn canolbwyntio ar y cymunedau mwyaf amddifadus yng Nghymru ac yn cael ei gyflenwi drwy bartneriaethau lleol. Mae swyddi a busnes yn brif thema yn fframwaith gweledigaeth canllawiau'r rhaglen sy'n hysbysu datblygiad Cynlluniau Gweithredu Cymunedol. Dylai'r cynlluniau ymdrin â'r angen am amrediad eang o wasanaethau cefnogaeth ar gyfer twf mentrau preifat, cymunedol a chymdeithasol. Dylai'r cyfleoedd hyn i gyflawni datblygiad economaidd a chymdeithasol fod ar gael i sefydliadau wedi'u seilio yn y gymuned ledled Cymru wledig.

Yn ychwanegol, fel a nodir yn *GwellCymru*, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i gryfhau'r mudiad Undeb Credyd yng Nghymru fel rhan o'i agenda cynhwysiant cymdeithasol. Mae Undebau Credyd yn:

- cyfrannu at dwf economaidd
- darparu gwasanaethau ariannol pwysig
- dod â chymunedau at ei gilydd.

Mae'r prif brosiect yn cael ei ariannu ar y cyd gan y Cynulliad a Chronfeydd Strwythurol a fydd yn darparu rhyw £3.5m, wedi'i ymrwymo i dwf Undebau Credyd dros gyfnod oes y prosiect (3 blynedd).

Mae'n cael ei gyflenwi drwy bartneriaeth rhwng Canolfan Cydweithredol Cymru a'r Association of British Credit Unions Ltd. Ar hyn o bryd mae 45 Undeb Credyd yng Nghymru, gyda 500 o wirfoddolwyr yn gwasanaethu aelodaeth o dros 12,000.

Y nodau, erbyn 2003/4, yw:

- y bydd nifer y gwirfoddolwyr yn dyblu i 1,000
- y bydd yr aelodaeth yn cynyddu driphlyg i 36,000
- y bydd 3,000 o aelodau wedi'u hyfforddi
- y bydd cefnogaeth drwy brosiectau allgau ariannol wedi'i gynnig i 1,800 o bobl

***Mae'r pwyllgor yn argymell:***

- ***lledaenu'r ymagwedd 'offer' hyblyg at bolisi adfywio cymunedol****;*

Mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi datblygu Polisi Adfywio Cymunedol clir. Yn cefnogi hyn mae pecyn offer cydlynus sy'n cynnwys wyth lifer craidd y gellir eu cymhwyso mewn ymateb i gam penodol yn y broses adfywio mewn unrhyw gymuned. Tra gellir defnyddio'r offer yn unigol hefyd, mae'r pecyn yn cynrychioli dull hyblyg o weithio gyda a thrwy bartneriaethau lleol effeithiol ac yn darparu'r cyfle ar gyfer datblygu integredig. Gellir cysylltu'r model â phartneriaethau eraill a arweinir yn lleol yn yr ardaloedd Amcan 1, 2 a 3. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi £5m ychwanegol drwy'r Cynllun Adfywiad Gwledig i gefnogi adfywio cymuned yn sgîl clwy'r traed a'r genau.

- ***y dylai pecynnau penodol fod ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth o hyfforddiant rheoli prosiectau datblygu cymunedol;***

- ***y dylai asiantaethau datblygu geisio annog unigolion â syniadau sydd â photensial economaidd yn yr un modd ag y byddant yn gweithio gydag entrepreneuriaid mwy traddodiadol***;

Mae'r prosiectau y gellir eu cefnogi drwy'r dull pecyn offer cymunedol yn gallu cynnwys cynyddu gallu, hyfforddiant a datblygu busnesau cymunedol, gan ddod â phortffolio gwasanaethau Awdurdod Datblygu Cymru i gyd i hybu'r cynlluniau. Mae cynyddu gallu hefyd yn ymddangos fel elfen allweddol yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae arian ar gael i gynorthwyo i gefnogi unigolion, grwpiau ac asiantaethau sy'n gweithio ar y lefel leol i chwarae rhan lawn wrth adfywio eu cymunedau. Mae hyfforddi niferoedd digonol o weithwyr datblygu cymunedol yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weld pobl leol yn cael eu hannog i ymgymryd â datblygu eu cymunedau ac ymgymryd â rolau Cydlynwyr Rhoi Cymunedau'n Gyntaf gyda'r gefnogaeth a'r hyfforddiant briodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cydnabod pwysigrwydd uchafu potensial economaidd yr holl bobl ymhob rhan o Gymru. O dan y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio gydag amrediad eang o gyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i annog pobl i fod

yn fwy mentrus ac i gynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i’r rhai â syniadau busnes.

- ***bod angen ymagwedd gydlynol gan y Cynulliad o ran y cyllid a’r gefnogaeth a roddir i gyrff datblygu unigol****;*

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido consortiwm o sefydliadau i’n cynorthwyo i gefnogi rhoi’r rhaglen Rhoi Cymunedau’n Gyntaf ar waith. Mae hwn yn cael ei adnabod fel y Rhwydwaith Cefnogi Rhoi Cymunedau’n Gyntaf. Mae 7 sefydliad yn rhan o’r rhwydwaith ar hyn o bryd, sef:

- Y Rhwydwaith Gweithredu Cymunedol
- Datblygu Cymunedol Cymru
- Cymdeithas Ymddiriedolaeth Datblygu (Development Trust Association)
- Groundwork Cymru
- Menter a Busnes
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae’r Rhwydwaith yn cynnig amrediad o wasanaethau: cefnogaeth cynyddu gallu a datblygu trefniadaeth; gwasanaethau gwybodaeth a chyngor; gwasanaethau datblygu i gynorthwyo ymarferwyr datblygu cymunedol a’r Gronfa Ymddiriedolaeth Rhoi Cymunedau’n Gyntaf sy’n darparu cronfeydd ar raddfa fach, sy’n hawdd eu cyrchu i grwpiau cymunedol lleol.

Yn ychwanegol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi’r Gronfa Benthyciad Gymunedol sydd wedi dechrau’n addawol iawn ers ei sefydlu yn yr Hydref 2000 – rhoddwyd benthyciadau o bron i £500,000 yn ystod y pedwar mis cyntaf.

Mae’r fenter ar y cyd rhwng Cyllid Cymru a HSBC yn cefnogi amrediad eang o brosiectau cymuned.

Mae’r Gronfa Benthyciad Cymunedol yn cefnogi adfywio cymunedol ledled Cymru gyfan, gan roi blaenoriaeth i ardaloedd Rhoi Cymunedau’n Gyntaf. Mae’n cynorthwyo’r sector cymunedol i gynyddu cynaliadwyedd hirdymor ac yn darparu mynediad at gyngor busnes cadarn. Mae’n arbennig o fuddiol i sefydliadau cymunedol sy’n ei chael yn anodd sicrhau cyllid o’r ffynonellau traddodiadol ac mae’n annog ysbryd mwy entrepreneuraidd yng Nghymru.

Bwriad Llywodraeth y Cynulliad yw y bydd y Gronfa yn parhau â’i gwaith da ac y bydd nifer y prosiectau a gefnogir yn parhau i dyfu. Dyrannwyd cronfeydd yn dod i gyfanswm o £1.949m i gefnogi’r Gronfa Benthyciadau Cymunedol dros y pedair blynedd hyd at 2004-05, a bydd HSBC yn cyfrannu swm cyfatebol, sy’n rhoi cyfanswm cyllideb o bron i 4 miliwn. Gan mai benthyciadau yw’r rhain, nod y cronfeydd yw y byddant yn hunan-gynhaliol yn barhaol.

- ***y bydd awdurdodau lleol yn helpu i bwysleisio anghenion penodol cymunedau unigol****.*

Mae Adran 4(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gosod dyletswydd ar brif awdurdodau lleol Cymru i baratoi strategaethau cymunedol ar gyfer hybu neu wella lle economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd, a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy yn y DU. Mae Adran 2(1) Deddf 2000 yn rhoi pwerau newydd eang i awdurdodau lleol yng Nghymru i wella a hybu lle lleol fel mod o'u cynorthwyo i roi'r strategaethau hyn ar waith.

Cyhoeddodd y Cynulliad ganllawiau i awdurdodau lleol ym mis Awst 2001 ynghylch paratoi strategaethau cymunedol ac mae'n cynnal cyfres o seminarau ledled Cymru i drafod a datblygu'r broses hon ymhellach. Cynhaliwyd seminarau yng Nghaerfyrddin a Wrecsam ac mae rhagor yn cael eu trefnu. Hefyd bwriedir datblygu gwefan wedi ei neilltuo i strategaethau cymunedol a'r broses o'u paratoi. Mae canllawiau drafft ynghylch sgôp y pwer o Adran 2 (1) Deddf 2000, y pwer i hybu lles, wedi eu dosbarth ar gyfer ymgynghori, a gobeithir cyhoeddi fersiwn derfynol y ddogfen hon yn fuan.

***Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r broses barhaus o hwyluso gwerthusiadau o'r fath gan sefydliadau cyhoeddus ac annibynnol i gyfrannu at gynlluniau datblygu.***

***Mae angen i'r sector cyhoeddus gydnabod potensial mentrau cymunedol a sicrhau bod cyngor a chefnogaeth ar gael mor rhwydd ag sy'n bosibl iddynt, yn yr un modd â'r hyn sydd ar gael i entrepreneuriaid mwy 'traddodiadol'***

***Mae perchnogaeth, datblygiad a gweithrediad cymunedol gwasanaethau lleol yn gynyddol yn cael ei weld fel modd o gynnal darpariaeth gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r pwyllgor yn cefnogi camau o'r fath a byddai'n annog y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill i fod yn gydymdeimladol mewn materion cynllunio a chefnogaeth pan fo modd***.

***Mae'r pwyllgor yn credu bod angen i'r gefnogaeth gyhoeddus fod yn ddigon hyblyg i annog datblygiad prosiectau newydd a arweinir gan y gymuned a dylai fod ar gael hefyd ar sail tymor hir***.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael, yn cynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Rhaglen LEADER+, i gefnogi ac annog gweithio aml-Asiantaeth a chyfraniad cyrff annibynnol i adfywio cymunedau yng Nghymru wledig.

Gall adfywio cymunedau yng Nghymru wledig gyfrannu'n bositif i les yr iaith Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. Er enghraifft, mae gan Menter Môn, y corff Leader yn Ynys Môn gangen ieithyddol, Menter Iaith Môn, a ariennir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae'n ategu ei weithgareddau drwy ddarparu cefnogaeth ymarferol i'r sector preifat, yn enwedig twristiaeth, o ran eu defnydd o'r Gymraeg.

## Cynllunio defnydd tir yn rhagweithiol fel rhan o adfywio gwledig (Gorffennaf 2000)

***Mae'r pwyllgor yn argymell gwaith ymchwil ychwanegol mewn nifer o feysydd:***

- ***y rhesymau am ddirnadaeth negyddol ffermwyr o'r system a'r datrysiadau priodol. Dylai'r gwaith ymchwil edrych a yw ffermwyr yn cael eu hatal rhag cyflwyno ceisiadau gan rwystrau real neu ddychmygol gan y system gynllunio**;*

Bu'r prosiect ymchwil 'Arallgyfeirio ar Ffermydd' a baratowyd gan Ymgynghorwyr Defnydd Tir mewn cydweithrediad â Phrifysgol Gorllewin Lloegr a Sefydliad Astudiaeth Gwledig Cymru ar ran y Cynulliad Cenedlaethol (2001) yn edrych ar y ffordd mae ffermwyr yn dirnad y system gynllunio. Daeth y prosiect i'r casgliad fod y gymuned ffermio yn gweld manteision y system gynllunio, hyd yn oed os ydynt yn teimlo rhwystredigaeth bersonol â'r system. Nid yw canlyniadau cyffredinol yr astudiaeth yn awgrymu fod cynllunio yn rhwystr mawr i arallgyfeirio ar ffermydd na bod angen diwygio'r system gynllunio – ei pholisïau a'i threfniadau – yn ei chyfanrwydd. O'r gwaith ymchwil yma nid oes arwyddion cryf fod cynllunio yn atal ymgeiswyr rhag cyflwyno cynigion arallgyfeirio. Mae'r ymchwil yn awgrymu fod ffermwyr yn yn dod yn fwy cadarnhaol o blaid arallgyfeirio.

- ***nifer a natur y prosiectau arallgyfeirio a gyflwynwyd, y rhesymau am eu gwrthod a'r amodau a osodwyd ar y rhai a gymeradwywyd**;*

Bu'r prosiect 'Arallgyfeirio ar Ffermydd' yn dadansoddi'r data meintiol sy'n bodoli, gan arfarnu'r cofrestru cynllunio yn fanwl a dadansoddi'r penderfyniadau apêl. Cyflwynodd y prosiect ganlyniadau ar gyfer gwahanol fathau o arallgyfeirio ar ffermydd, y cyfraddau cymeradwyo a'r rhesymau am wrthod cynigion.

- ***agwedd ofodol y berthynas rhwng cynllunio ac arallgyfeirio ar y lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Dylai'r gwaith ymchwil edrych ar yr angen am ganllawiau lleol i ymdrin ag amgylchiadau lleol a dylai nodi unrhyw wrthdaro potensial â chanllawiau cenedlaethol ar y lefel leol/rhanbarthol**;*

Mae Prosiect Ymchwil Cynllunio Cymru sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, 'Yr Economi Wledig a'r System Gynllunio', yn ymchwiliad i berthynas ofodol arallgyfeirio gwledig yng nghyd-destun y system gynllunio. Mae'r gwaith ymchwil yn edrych ar sut mae polisi cenedlaethol yn cael ei ddehongli ar y lefel leol i fodloni amgylchiadau lleol drwy bolisïau cynllunio datblygu. Disgwylir i'r canfyddiadau gael eu cyhoeddi yn y Gwanwyn 2002 a bwriedir cynnal seminar i drafod y canlyniadau.

- ***rhinweddau cymharol ac ymarferoldeb cynnwys dosbarth busnes gwledig i'r rhestr dosbarthiadau defnydd;***

- ***a yw'r diffiniad o ddatblygiad amaethyddol a ganiateir o dan y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir yn ddigonol***

Bu'r prosiect ymchwil 'Arallgyfeirio ar Ffermydd' yn ymchwilio i a thrafod gwahanol gynigion i newid deddfwriaeth eilaidd yn cynnwys cyflwyno dosbarth defnydd Busnes Gwledig neu Fenter Gwledig.

Daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad (Argymhelliad 2) na ddylid cyflwyno Dosbarth Defnydd o'r fath. Mae rhagor o ymchwil a gomisiynwyd o dan Raglen Ymchwil Cynllunio Cymru yn debygol o ymchwilio i newidiadau posibl eraill i'r ddeddfwriaeth, a allai fod o fudd i'r economi wledig.

Yn ychwanegol, bydd cyngor cynllunio yn cael ei ddarparu fel rhan o'r fenter Cyswllt Ffermio o 2002-03 ymlaen. Dylai hyn sicrhau bod teuluoedd ffermio'n gallu cyrchu cyngor proffesiynol ynghylch gofynion y system gynllunio a'r cyfleoedd a gynigir, ac mewn amser dylai gael gwared ar y ddirnadaeth bod rhwystrau sy'n gweithredu i atal ffermwyr rhag cyflwyno ceisiadau.

***Mae'r pwyllgor yn argymell:***

- ***y dylai Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad ddarparu'r egwyddorion arweiniol ar gyfer y system gynllunio a bod canllawiau cynllunio yn ei gwneud yn glir bod ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael ystyriaeth gyfartal;***

Mae gan y system gynllunio rôl sylfaenol wrth gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Rhaid iddi gynorthwyo yn y broses o gydbwyso ac integreiddio yr amcanion hyn er mwyn diwallu anghenion datblygu cyfredol tra'n diogelu'r rhai yn y dyfodol. Yn benodol mae'n rhaid i'r system gynllunio, drwy'r Cynlluniau Datblygu Unedol a'r broses rheoli datblygu, ddarparu ar gyfer cartrefi, isadeiledd, buddsoddi a swyddi mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd (Paragraff 2.1.5, Polisi Cynllunio Cymru). Mae'r polisïau defnydd tir strategol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn llwyr gymhathus â'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac yn hybu datblygu cynaliadwy drwy gydbwyso ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

- ***y dylid datblygu strategaethau clir ar gyfer Cymru gyfan o ran ynni a gwastraff i ddarparu cefndir cydlynus ar gyfer barnu ceisiadau cynllunio;***

Mae adolygiad o Nodyn Cyngor Technegol 8 (Cymru) Ynni Adnewyddol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd mewn cydweithrediad clos â'r diwydiant ynni adnewyddol a grwpiau amgylcheddol. Bydd drafft ymgynghori'n cael ei chyhoeddi yn 2002.

O'r persbectif ynni, nod Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau'r polisîau datblygu economaidd cryf i fod yn sail i dwf a ffyniant yng Nghymru. Ac fel rhan o hyn i gydnabod pwysigrwydd datblygu ynni glân fel ffactor economaidd a datblygu ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy. Ein egwyddorion arweiniol a'r polisi ynni adnewyddol trosfwaol cyfredol yw ysgogi datblygu lle ei bo'n atyniadol yn economaidd ac yn dderbyniol yn amgylcheddol. Roedd y Cynllun i Gymru 2001, yn nodi'r angen i roi Cymru ar y llwybr o ddod yn fodel bydol ar gyfer cynhyrchu ynni glân ac erbyn 2010 i gael 10% o gynhyrchiant trydan yng Nghymru yn dod o ffynonellau ynni glân. Cadarnhawyd hyn yn 'Cymru ar ei Hennill' sy'n cydnabod y potensial i Gymru arwain mewn sectorau twf yn cynnwys ynni glân ac adnewyddol a thechnolegau carbon isel. Bydd adolygiad y Pwyllgor Datblygu Econoamidd o ynni yng Nghymru yn ymgorffori'r amcanion hyn. Bydd yr adolygiad, a ddechreuodd ym mis Hydref 2001, yn edrych ar y posibiliadau hirdymor ar gyfer cynhyrchu ynni (nid ar gyfer cludiant) a defnyddio ynni yng

Nghymru, a chyflwyno argymhellion i Gabinet y Cynulliad ynghylch y fframwaith strategol mwyaf priodol i sicrhau'r defnydd optimwm a chynhyrchu ynni yng Nghymru erbyn 2020 gan ystyried datblygiadau pellach. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i'r adroddiad hwn maes o law.

Yr Is-adran Diogelu'r Amgylchedd sy'n arwain y Strategaeth Gwastraff Cymru a chafwyd cydweithio agos rhwng y ddwy Is-adran wrth baratoi'r Strategaeth. Fel a nodwyd yn yr adroddiad, cyhoeddwyd Strategaeth Gwastraff Cymru fel drafft ymgynghori yn 2001 ac mae'r fersiwn derfynol yn debygol o gael ei chyhoeddi yn y Gwanwyn 2002. Mae Cyfarwyddebau Ewropeaidd yn galw am newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn ymdrin â gwastraff a bydd Strategaeth Gwastraff Cymru yn datblygu'r newidiadau angenrheidiol a nodwyd eisoes yn Strategaeth Gwastraff 2000 Cymru a Lloegr. Diwygiwyd y canllawiau cynllunio i gynorthwyo i roi'r newidiadau hyn ar waith (Polisi Cynllunio Cymru (2001) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 21 Gwastraff (2001)). Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu trefniadau rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol i lunio cynlluniau gwastraff rhanbarthol i hysbysu dyraniadau defnydd tir ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu Unedol, gan arwain at rwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff i drin, rheoli a gwaredu'r holl wastraff a gynhyrchir.

- ***gwasanaeth cynghori am gynllunio mwy rhagweithiol ar gyfer busnesau gwledig, wedi ei integreiddio yn rhan o becyn hyfforddiant a chyngor busnes ymarferol ehangach. Fel rhan o'r pecyn hwn, argymhellwn;***

- ***ddatblygu arweiniad arferion da i annog ffermwyr i arallgyfeirio ar raddfa fechan;***

- ***cynnydd yn y deialog rhwng y gymuned ffermio, busnesau gwledig, awdurdodau cynllunio a chyrff cyhoeddus eraill gan ddefnyddio arferion gorau mewn awdurdodau cynllunio lleol;***

- ***dynodi swyddogion cyswllt penodol mewn awdurdodau lleol i gynorthwyo ffermwyr ac eraill i ganfod eu ffordd trwy'r broses gynllunio. Dylai'r swyddogion hyn fod yn gysylltiedig â'r llinell gymorth newydd ei sefydlu sy'n darparu cyngor i ffermwyr;***

Ar hyn o bryd mae ARAD yn gweithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru i ddarparu cyngor cynllunio i ffermwyr sy'n dymuno datblygu prosiectau arallgyfeirio anamaethyddol o dan faner Cyswllt Ffermio. Mae'r nodiadau arweiniad a gynhyrchwyd i gynorthwyo teuluoedd ffermio wrth gyflwyno ceisiadau Grant Menter Fferm wedi'u llunio i gynorthwyo darpar ymgeiswyr – ar y cyd a'r ymgynghorwyr a'u cynorthwyodd i lunio Cynllun Datblygu Busnes Fferm – i ystyried yr holl bosibiliadau ar gyfer arallgyfeirio eu menter busnes. Dylai profiad wrth weinyddu'r cynllun ddarparu'r sail i rannu arferion da yn y maes hwn.

Hefyd, mae protocol wrthi'n cael ei lunio rhwng partneriaid Cyswllt Ffermio a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol wedi'u cysylltu'n llawn â darpariaeth yr holl wasanaethau Cyswllt Ffermio. Darparwyd cysylltiadau awdurdod lleol yn yr holl feysydd pwnc perthnasol.

- ***y dylid adolygu’r Nodyn Cyngor Technegol ar ddyluniad er mwyn rhoi rhagor o arweiniad;***

Cyhoeddwyd diwygiad drafft of Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 12 Dyluniad ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2001. Disgwylir cyhoeddi’r fersiwn ddiwygiedig yn y Gwanwyn 2002.

- ***y dylai’r effaith ar ddichonoldeb busnes yn y dyfodol gael ei ystyried wrth asesu ceisiadau cynllunio;***

Yn ôl y gyfraith mae’n rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol ystyried pob cais cynllunio yn ôl ei rinweddau, gan ystyried darpariaethau’r cynllun datblygu statudol ac unrhyw ystyriaethau materol. Rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio yn unol â’r cynllun datblygu a fabwysiadwyd oni bai bod ystyriaethau materol yn nodi fel arall.

Gall y cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 6 Datblygu Gwledig ac Amaethyddiaeth (2000) fod yn berthnasol. Noda paragraffau 8 a 9, wrth asesu ceisiadau cynllunio, y gallai effaith gwahanu a gwasgaru ar fferm a’i strwythur fod yn berthnasol ac felly, y dylid ystyried yr effaith ar fuddsoddiad cyfalaf fferm fel rhan o broses o ystyried yr achos amaethyddol.

- ***system wedi ei seilio ar feini prawf lle bo pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei rinweddau yn hytrach nag yn erbyn rhestr o weithgareddau addas;***

Mae Cynlluniau Datblygu Unedol a baratowyd gan awdurdodau cynllunio lleol unigol yn darparu’r cyfrwng iddynt nodi eu polisïau ar gyfer rheoli datblygu. Yn ôl y gyfraith mae’n rhaid asesu pob cais yn ôl ei rinweddau, ond gall y polisïau yn y CDU nodi’r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer asesu ceisiadau. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori awdurdodau cynllunio y dylai eu Cynlluniau Datblygu Unedol gynnwys polisïau sy’n annog arallgyfeirio ar ffermio a chyfleoedd datblygu gwledig newydd sy’n nodi meini prawf clir y bydd ceisiadau cynllunio yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Mae’n cynghori awdurdodau cynllunio ymhellach na ddylai polisïau cynlluniau datblygu restru’r mathau o ddatblygu a allai fod yn briodol ond dylai ganolbwyntio ar fewnbwn y gwahanol fathau o ddatblygiad.

- ***y dylai canllawiau cynllunio ganiatáu datblygiadau arallgyfeirio ar raddfa fechan mewn cymhligion fferm presennol;***

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygu sy’n gysylltiedig ag arallgyfeirio ffermydd yn yr ardaloedd gwledig, p’un ai yw ffermydd yn cael eu gwasanaethu gan gludiant cyhoeddus ai peidio. Mae’n nodi, tra y dylid ystyried addasu adeiladau fferm presennol yn gyntaf, gall darparu adeilad newydd wedi’i ddylunio’n sensitif mewn cymhligion fferm presennol fod yn briodol lle nad oes cyfle i addasu neu newid adeilad.

- ***y dylai diffiniad Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth gael ei ehangu a’i nodi’n fwy eglur***.

Bu’r prosiect ymchwil ‘Arallgyfeirio ar Ffermydd’ yn ystyried argymhellion i’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gan nifer o sefydliadau yn awgrymu newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth eilaidd. Mae’r gwaith ymchwil yn argymell yn benodol na ddylid ychwanegu arallgyfeirio ffermydd i’r Dosbarth Defnydd B1, na ddylid cyflwyno Dosbarth Defnydd Busnes Gwledig/ Menter Wledig ac na ddylid y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd i gynnwys hamdden yn y diffiniad ffermio.